# Cyngor

Rydych dan wŷs trwy hyn i ddod i gyfarfod **Cyngor Dinas a Sir** i'w gynnal yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe ar Dydd Iau, 26 Ebrill 2018 am 5.00 pm.

Cynigir trafod y materion canlynol:

| | | |
|---|---|---|
| 1. | **Ymddiheuriadau am absenoldeb.** | |
| 2. | **Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.**<br>www.abertawe.gov.uk/DatgeliadauBuddiannau | |
| 3. | **Cofnodion.**<br>Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod(ydd) blaenorol fel cofnod cywir | 1 - 6 |
| 4. | **Ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau a ofynnwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Diwethaf y Cyngor.** | 7 - 9 |
| 5. | **Cyhoeddiadau'r Aelod Llywyddol.** | |
| 6. | **Cyhoeddiadau Arweinydd y Cyngor.** | |
| 7. | **Cwestiynau gan y Cyhoedd.**<br>Rhaid i'r cwestiynau ymwneud â materion ar ran agored agenda'r cyfarfod, ac ymdrinnir â hwy o fewn 10 munud. | |
| 8. | **Cyflwyniad Cyhoeddus -** | |
| 9. | **Côd Ymarfer - Cyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi.** | 10 - 31 |
| 10. | **Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru - Adolygu Ffiniau Lleol.** | |
| 11. | **Gynllun Lles Lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Abertawe - Gweithio gyda'n gilydd ar gyfer dyfodol gwell.** | 32 - 92 |
| 12. | **Aelodaeth Pwyllgorau.** | 93 - 94 |
| 13. | **Adroddiadau Craffu - Adroddiad Effaith Chwarterol** | 95 - 100 |
| 14. | **Cwestiynau gan y Cynghorwyr.** | 101 - 111 |
| 15. | **Rhybydd o Gynnig - Cynghorwyr M C Child, R Francis-Davies, W<br/>Evans, C A Holley, D H Hopkins, P K Jones, A S Lewis, C E** | |

**Lloyd,<br/>J A Raynor, M Sherwood, R C Stewart & M Thomas**
Mae'r cyngor hwn yn credu y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd, heb gael trefniadau rhesymol ar waith, yn achosi difrod tymor hir i bobl Abertawe, Cymru a'r DU.

Rydym yn nodi bod adroddiadau effaith diweddar y Llywodraeth, sy'n cadarnhau y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn amharu ar dwf a ffyniant, ac yn lleihau'r Cynnyrch Domestig Gros rhwng 1.5% a 9.5%. Bydd yr effeithiau negyddol hyn yn amharu ar swyddi, incwm, pensiynau a chyfleoedd pobl. Yn ogystal, bydd gadael yr UE yn peryglu llawer o fesurau diogelu amgylcheddol, sy'n gofyn am gydweithrediad rhyngwladol er mwyn bod yn effeithiol.

Wrth gwrs, bydd lefel yr effaith gyffredinol yn dibynnu ar y trefniadau a roddir ar waith ar gyfer ein perthynas â'r UE yn y dyfodol. Fodd bynnag, ym mhob sefyllfa mae'n glir y bydd y DU, Cymru ac Abertawe'n dlotach y tu allan i'r UE.

Mae'r cyngor hwn, felly, yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod y penderfyniad pwysicaf y mae'r wlad hon wedi'i wynebu ers cenedlaethau'n destun pleidlais ystyrlon.

Dylai'r bleidlais hon fod ar ffurf pleidlais rydd yn y Senedd ar y cytundeb wedi Brexit sydd wedi'i gyd-drafod.

Rydym yn galw ar yr Arweinydd i ysgrifennu, ar ran y cyngor, i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru i gyfleu ein barn am y mater hwn.

**Huw Evans**
**Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd**
**Neuadd y Ddinas,**
**Abertawe.**

**Dydd Mawrth, 17 Ebrill 2018**

**I: Bob Aelod o'r Cyngor**